Hydref 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Amcangyfrif o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2020

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Paratowyd ar y cyd a gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2018

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Isobel Garner**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Rhagair

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag Adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru

Caiff Cynllun Ffioedd drafft, a baratowyd o dan Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ei gynnwys i'w ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif am eu bod yn ddibynnol ar ei gilydd.

# Cynnwys


Cyflwyniad 5

Ein gwaith – gwneud i arian cyhoeddus gyfrif 7

Ein cyllideb 2019-20 10

Newidiadau yn ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru o 2018-19 i 2019-20 10

Ein costau 11

Ein hincwm 16

Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru 19

Y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein hamcanion 22

Rhagolwg 33

Cwmpas y gyllideb 2019-20 35

Atodiad 1 – Cynllun Ffioedd Drafft 2019-20 37

# Cyflwyniad

Mae rôl hanfodol gwaith archwilio annibynnol i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn yn bwysicach nag erioed pan fo adnoddau'n brin. Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a Phwyllgorau eraill y Cynulliad yn ôl yr angen, yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i fwy nag 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. O'r cyngor tref a chymuned lleiaf i Lywodraeth Cymru ei hun, gan gwmpasu'r sector iechyd, llywodraeth leol a llawer o gyrff cyhoeddus eraill hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus lle bynnag y caiff ei gwario.

Yn ogystal â chwarae ein rhan i ddiogelu arian cyhoeddus a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein model gweithredu ein hunain mor effeithion ac effeithiol â phosibl. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi lleihau costau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru tua 14%. Mae'r adborth gan ein rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ac mae canlyniadau ein harolygon staff yn cymharu â'r 10% uchaf o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, ni allwn laesu dwylo. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pobl Cymru yn ymddiried ynom, bod cyrff cyhoeddus yn rhoi gwerth ar ein gwaith a bod ein staff yn rhagori yn eu rolau.

2019-20 yw'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf o dan ein Harchwilydd Cyffredinol newydd, Adrian Crompton. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r arian sydd ei angen ar gyfer 2019-20 ac yn esbonio sut rydym yn bwriadu gwario £21.4 miliwn wrth ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol a rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hyn yn cynrychioli dim ond un rhan o fil o'r £19.6 biliwn a gaiff ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Mewn geiriau eraill, mae gwaith archwilio cyhoeddus yn costio llawer llai na cheiniog am bob punt a gaiff ei gwario.

O dan ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn nesaf rydym yn ymrwymo i ddod o hyd i arbedion gwerth £574,000 drwy gydol y flwyddyn.

Daw dwy ran o dair o'n hincwm o'r ffioedd a godwn am ein gwaith ac nid y Gronfa Gyfunol. Y flwyddyn nesaf, yn ogystal â lleihau ein galw ar y Gronfa, rydym yn ymrwymo i beidio â chynyddu'r ffioedd cyffredinol a godwn ar y cyrff a archwilir gennym, sy'n golygu lleihad sylweddol yn ein hincwm mewn termau real. Gan ystyried y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus, byddwn yn parhau i geisio lleihau ffioedd lle bynnag y bo modd, tra'n parhau i gynnal ansawdd gwaith archwilio ar gyfer pob corff a archwilir. Dywed y cyrff a archwilir gennym eu bod yn cefnogi'r dull hwn o weithredu.

Ym mis Mawrth 2018 gosodwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19 gerbron y Cynulliad. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2019-20, gyda'n Cynllun Blynyddol wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2019-20 i'w osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2019.



**Isobel Garner**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru


# Ein gwaith – gwneud i arian cyhoeddus gyfrif

## Beth rydym yn ei wneud?

1 Fel archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae'n adrodd ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol ac asesiadau strwythuredig o bob un o 10 corff y GIG. Mae'n cyhoeddi tua 14 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian a'r defnydd cywir o arian cyhoeddus, yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £2.5 biliwn, ac yn cynghori ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o aelodau o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys adnoddau ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Dangosir ein nod a'n hamcanion allweddol ar y cyd isod.

Arddangosyn 1: Nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru




3 Nodir prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol yn arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Prif weithgareddau gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

| GWEITHGAREDD | GRADDFA |
|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru | **42** cyrff Llywodraeth Ganolog<br>**11** cyrff iechyd<br>Dros **800** o gyrff llywodraeth leol |
| Gwaith archwilio perfformiad gan gynnwys asesiadau gwerth am arian, cynllunio gwella a chydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | **28** cyrff llywodraeth leol<br>**10** corff iechyd<br>**44** cyrff cyhoeddus a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | **21** o gynlluniau llywodraeth leol (tua 400 o hawliadau gwerth tua £2.5 biliwn i gyd). |

| GWEITHGAREDD | GRADDFA |
| --- | --- |
| Astudiaethau gwerth am arian | Fel arfer, tua **14** o astudiaethau bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. |
| Cyfnewidfa Arfer Da | Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac arfer da. |
| Gweithgareddau pwysig eraill | Mae'n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru;<br>• ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. |

# Ein cyllideb 2019-20

## Newidiadau yn ein galw ar Gronfa Gyfunol Cymru o 2018-19 i 2019-20

4 Bydd ein galw cyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn gostwng £115,000 ar gyfer 2019-20. Dangosir hyn yn Arddangosyn 3.

5 Rydym wedi cyflawni hyn yng nghyd-destun pwysau cost mewnol, yr angen i gyllido ein blaenoriaethau strategol, a chyfyngiadau ariannol yn y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Arddangosyn 3: newidiadau yng nghyllid Cronfa Gyfunol Cymru o 2018-19 i 2019-20

| **2018-19** | **£'000** |
|---|---|
| Cyllid Refeniw 2018-19 | 6,981 |
| Cyllid Cyfalaf 2018-19 | 280 |
| **Cyfanswm Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2018-19** | **7,261** |

| **Newidiadau ar gyfer 2019-20** | **£'000** |
|---|---|
| Cyllid cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol (cyllid pob yn ail flwyddyn) | (130) |
| Gostyngiad mewn perthynas â gwaith paratoi ar gyfer Awdurdod Refeniw Cymru | (50) |
| Llai o fuddsoddiad cyfalaf 2019-20 | (70) |
| Cam gweithredu prosiectau trawsnewid strategol | 50 |
| Adolygiad o Barodrwydd ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) | 85 |

| **2019-20** | **£'000** |
|---|---|
| Cyllid Refeniw 2019-20 | 6,936 |
| Cyllid Cyfalaf 2019-20 | 210 |
| **Cyfanswm Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru 2019-20** | **7,146** |

## Ein costau


6 Mae ein gwariant refeniw arfaethedig ar gyfer 2019-20 ychydig dros £21.4 miliwn. Bydd angen i ni wneud arbedion effeithlonrwydd gwerth tua £574,000 yn ystod y flwyddyn i wrthbwyso codiadau chwyddiannol gan gynnwys codiadau cyflog a chynyddrannau staff.

7 Drwy wneud yr arbedion hyn ni fydd angen i ni gynyddu ein ffioedd na'n galw ar Gronfa Gyfunol Cymru.

8 Mae'r gyllideb hon yn golygu bod gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn costio llawer llai na cheiniog am bob punt a gaiff ei gwario gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru[1].

9 Dengys Arddangosyn 4 ein meysydd allweddol o wariant. Ceir rhagor o fanylion yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 4: Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20




1 Gwariwyd £19.6 biliwn ar Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn 2016-17.

Arddangosyn 5: Gwariant refeniw Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20

| Amcangyfrif y flwyddyn flaenorol | Treuliau | Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| £'000 | Costau staff | 15,185 |
| 617 | Staff ar gontractau byrdymor | 737 |
| 1,231 | Teithio a chynhaliaeth | 1,216 |
| 960 | Swyddfeydd | 993 |
| 962 | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 905 |
| 500 | Balans TAW anadenilladwy | 500 |
| 397 | TGCh | 480 |
| 300 | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 |
| 275 | Hyfforddiant allanol | 289 |
| 145 | Cyfieithu dogfennau; | 165 |
| 194 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 162 |
| 130 | Casglu data ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol | - |
| 628 | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 479 |
| **21,625** | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **21,411** |


10 Ar hyn o bryd mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wrthi'n cynnal prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac ni ddisgwylir i'w ganlyniadau gael eu cyhoeddi tan yn ddiweddarach eleni. Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i hyn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfraddau cyfrannu cyflogwyr. Oherwydd yr ansicrwydd, ni ddarparwyd ar gyfer unrhyw gynnydd mewn cyfraddau yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20. Os byddant yn cynyddu'n sylweddol, efallai y bydd angen i ni gyflwyno Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2019-20 i'r Pwyllgor Cyllid ac, o bosibl, Gynllun Ffioedd diwygiedig ar gyfer y flwyddyn, yn dibynnu ar faint unrhyw gynnydd.

## Ein hincwm – ariannu ein costau rhedeg

11 Caiff tua 68% o'n gwariant ei gyllido gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir; daw'r 32% arall o Gronfa Gyfunol Cymru.

12 Mae Arddangosyn 6 yn crynhoi'r incwm amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn, mae Arddangosyn 7 yn dadansoddi'r incwm hwn yn ôl math.

Arddangosyn 6: incwm Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20



Arddangosyn 7: dadansoddiad o'r incwm yn ôl math

| Amcangyfrif y flwyddyn flaenorol £'000 | Incwm | Amcangyfrif, blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| 13,193 | Ffioedd archwilio | 13,277 |
| 1,451 | Ffioedd ardystio grantiau | 1,198 |
| **14,644** | **CYFANSWM YR INCWM** | **14,475** |
| **6,981** | **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru** | **6,936** |

13 Caiff yr incwm a gawn o ffioedd ei reoli gan Gynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni gyhoeddi Cynllun Ffioedd o leiaf unwaith y flwyddyn.

14 Yn y ddogfen Amcangyfrif hon rydym yn cynnwys ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2019-20 (Atodiad 1). Fe'i cynhwyswyd er mwyn dangos sut mae incwm ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy yn ddibynnol ar ei gilydd. Ar ôl i'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft gael eu hystyried, byddwn yn cyflwyno ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2019-20 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cadarnhau'r ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn i'r cyrff a archwilir gennym.

15 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani.

16 Ym mis Awst 2018 gwnaethom ymgynghori â chyrff ar y sail na fyddai'r ffioedd a godir gennym yn cynyddu, gyda'r bwriad o leihau ffioedd lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar archwiliadau unigol.

17 Dim ond naw o'r 90 o gyrff yr ymgynghorwyd â nhw, o'r holl sectorau a archwilir, a ymatebodd i'n hymgynghoriad. Mae hyn yn cymharu â 22 o ymatebion ychydig flynyddoedd yn ôl ac yn awgrymu bod lefelau ein ffioedd yn peri llai o bryder i gyrff a archwilir nag oeddent o'r blaen. Dywedodd y rhai a ymatebodd wrthym fod:

- cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallant gymryd rhan am ddim yn y Fenter Twyll Genedlaethol.
- cyrff a archwilir yn falch nad ydym yn bwriadu cynyddu'r ffioedd a godir ar gyfer 2019-20.
- gofynnodd rhai ymatebwyr i ni ystyried opsiynau ar gyfer gostwng ein ffioedd yn unol â'r gostyngiadau cyllidebol y mae'r cyrff a archwilir gennym yn eu hwynebu.

18 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth ac wedi ei ystyried wrth gwblhau'r Amcangyfrif hwn a'r Cynllun Ffioedd drafft amgaeedig.

19 Ar wahân i'r Amcangyfrif hwn, rydym yn parhau i drafod manteision symleiddio'r drefn ffioedd archwilio cyhoeddus gymhleth, y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru weithredi oddi tani, gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad. Rydym yn annog y Pwyllgor i ystyried bwrw ymlaen â newidiadau deddfwriaethol i symleiddio'r drefn ffioedd yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn fwy cyson â'r rhai sy'n gymwys i gyrff archwilio eraill yn y DU.

## Buddsoddi Cyfalaf

20 Nodir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2018-19 i 2022-23 sy'n gysylltiedig â'n Cynlluniau TG ac Ystadau tymor canolig, yn Arddangosyn 8. Ariennir pob buddsoddiad cyfalaf o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r Amcangyfrif hwn.

Arddangosyn 8: buddsoddi cyfalaf 2018-19 i 2022-23

| | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu cyfrifiaduron/ seilwaith | 115 | 95 | 95 | 95 | 95 |
| Adnewyddu'r seilwaith fideogynadledda | 15 | 25 | 25 | 25 | 25 |
| Systemau Corfforaethol | 100 | 50 | 50 | 90 | 90 |
| Strategaeth Ystadau | 50 | 40 | 40 | 40[2] | 40 |
| **CYFANSWM** | **280** | **210** | **210** | **250** | **250** |

## Gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu cyfrifiaduron/seilwaith

21 Rhaglen dreigl o adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG er mwyn sicrhau parhad busnes a bod cyfarpar yn gyfredol ac yn ddibynadwy. Rydym wedi cynyddu'r dyraniad ar gyfer y flaenoriaeth hon er mwyn adlewyrchu ein buddsoddiad mewn gliniaduron hybrid sy'n galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithiol gyda sgriniau cyffwrdd a chlustffonau diwifr. Disgwylir i'n prosiect trawsnewid ar y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol gynyddu'r galw am dechnoleg newydd i ddefnyddwyr.

22 O bryd i'w gilydd, mae angen i ni adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith data sy'n gysylltiedig â'n swyddfeydd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i'w ddefnyddio ac ymdopi â galwadau o ran cysylltedd yn y dyfodol. Wrth i ni drosglwyddo i 'wasanaethau cwmwl' mae llai o angen buddsoddi mewn seilwaith rhwydweithio.

2 Efallai y bydd angen i'r swm hwn gynyddu – gweler paragraff 27.

## Adnewyddu'r Seilwaith Fideogynadledda

23 Mae ein cyfleusterau fideogynadledda yn parhau i leihau'r costau, yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amser staff sy'n gysylltiedig â theithiau busnes ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn y cyfleusterau yn ein tair swyddfa ac ar rai safleoedd cleintiaid. Hefyd, gall pob aelod o staff ddefnyddio meddalwedd fideogynadledda ar gyfrifiaduron wth weithio o bell ac o swyddfeydd heb unrhyw gyfleusterau fideogynadledda. Bydd cyllid yn y rhaglen gyfalaf yn ei gwneud yn bosibl i gynnal rhaglen adnewyddu dreigl wrth i unedau fynd yn hen.

## Systemau Corfforaethol

24 Yn 2017-18 a 2018-19 rydym wedi buddsoddi yn y gwaith o adnewyddu neu uwchraddio dwy system gorfforaethol graidd, – ar gyfer Cyllid ac Adnoddau Dynol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn gwelliannau i'r systemau a ddefnyddir i reoli ein gwaith archwilio.

25 Mae'r swm a ddyrannwyd yn ein rhaglen gyfalaf arfaethedig wedi'i leihau ar gyfer 2019-20 a 2020-21 ac wedi'i gynyddu tua diwedd y rhaglen er mwyn ariannu unrhyw waith i adnewyddu neu uwchraddio systemau allweddol yn ôl yr angen.

## Strategaeth Ystadau

26 Tua diwedd ein rhaglen pum mlynedd, bydd angen adnewyddu'r prydlesau ar ein tair swyddfa yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele neu bydd y prydlesau yn dod i ben, ac mae ein rhaglen gyfalaf yn darparu ar gyfer gwneud y buddsoddiad parhaus sydd ei angen er mwyn cynnal a chadw'r adeiladau hynny. Disgwylir i'n prosiect trawsnewid diweddaraf ar ffyrdd o weithio yn y dyfodol gyflwyno ei adroddiad yn 2019 a bydd yn llywio adolygiad strategol o ofynion yn y gweithle yn y dyfodol. Gall hyn effeithio ar y galw am wariant cyfalaf yn y dyfodol, a gaiff ei adlewyrchu mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol.

## Safonau adrodd newydd

27 Mae'n bosibl y bydd y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) ar gyfer 2019-20, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, yn ei gwneud yn ofynnol i Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS 16) gael ei mabwysiadu wrth gyfrif am brydlesau.

28 Os caiff ei mabwysiadu, bydd angen Amcangyfrif Atodol technegol i unioni'r newid am y bydd angen trin rhwymedigaethau o ran prydlesau yn y dyfodol fel asedau cyfalaf yn ein cyfrifon.


# Gwerth am arian yn Swyddfa Archwilio Cymru

## Ein hanes

29 Ers creu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013-14, byddwn wedi lleihau cost gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru 14% mewn termau real[3] yn seiliedig ar yr Amcangyfrif hwn. Dangosir hyn yn Arddangosyn 9. Bydd yr arbedion cronnol a sicrheir yn ystod y blynyddoedd hynny yn cyfateb i fwy na £13 miliwn.

30 Rydym wedi llwyddo i sicrhau'r lleihad hwn mewn gwariant er i ni ddyrannu adnoddau ychwanegol i feysydd newydd o wariant yn ystod y cyfnod, megis Astudiaethau Ymchwiliol, cynnydd yn ein gwaith ar y Gyfnewidfa Arfer Da, ein buddsoddiad mewn cynllun hyfforddi graddedigion a buddsoddiad mewn gweithgarwch trawsnewid sefydliadol.

Arddangosyn 9: gwariant rhwng 2013-14 a 2019-20




3 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan SYG ym mis Mehefin 2018.

## Ein dull gweithredu

31 Rydym yn gweithio'n galed i amsugno costau uwch cytundebau cyflog, codiadau cyflog cytundebol, chwyddiant cyffredinol ac unrhyw gynnydd arall mewn costau na ellir ei osgoi. Gwnawn hyn drwy:

- nodi rhaglen arbedion, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- mireinio a datblygu dulliau archwilio;
- ailystyried lefelau staffio a chymysgedd sgiliau staff yn rheolaidd:
  - dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi lleihau nifer y swyddi ar lefel uwch reolwr a Chyfarwyddwr 9% (sy'n cyfateb i chwe swydd) a chynyddu nifer yr hyfforddeion graddedig i 45.
- trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio:
  - Dadansoddi Data – rydym yn defnyddio arian Cronfa Gyfunol Cymru a ddyfarnwyd yn flaenorol i ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o adnoddau dadansoddi data er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud ein gwaith archwilio
  - Cyfathrebu – byddwn yn gweithredu ar argymhellion o brosiect diweddar a ystyriodd sut y gellid cynyddu effaith ein gwaith
  - Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol – bydd tîm o staff o bob rhan o'r sefydliad yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser staff, swyddfeydd, adnoddau a thechnoleg
  - Gwneud defnydd helaeth o Gyfleusterau Fideogynadledda a chyflwyno Skype for Business gan alluogi staff i gyfarfod heb fod angen iddynt deithio.
  - Symleiddio prosesau arferol er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithredol.
  - Rhoi cynllun teithio newydd i staff ar waith sydd wedi lleihau costau teithio blynyddol 11%.

## Ein heffaith

32 Rydym yn mesur ein perfformiad a'r effaith rydym yn ei chael drwy ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ac y cyflwynir adroddiad arnynt ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dangosyddion cyflawni ac effaith
- Dangosyddion arweinyddiaeth a diwylliant
- Dangosyddion rheoli'r busnes

Gellir gweld ein perfformiad ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf y cyflwynwyd adroddiad arni, sef 2017-18, yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 8 Mehefin 2018.

33 Rydym yn ceisio pennu targedau ymestynnol ac ymrwymo i'w cyflawni drwy ein Cynllun Blynyddol, y mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ein dwyn i gyfrif amdano.

34 Derbyniwn adborth gan y cyrff a archwilir gennym a adlewyrchir wedyn yn ein dangosyddion perfformiad.

# Y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein hamcanion

35 Mae'r gofynion o ran adnoddau a nodir yn yr Amcangyfrif hwn yn cyd-fynd â'n pedwar amcan sefydliadol fel yr esbonnir isod.

Arddangosyn 10: Amcanion Swyddfa Archwilio Cymru




36 Mae Arddangosyn 11 yn dangos sut rydym yn ariannu'r amcanion hyn o ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru.

Arddangosyn 11: ariannu ein hamcanion

| | | Cyllid | |
|---|---|---|---|
| Amcan a Gefnogir | | Incwm o Ffioedd | Cronfa Gyfunol Cymru |
| | | £'000 | £'000 |
| ● ● ● | Archwilio cyfrifon ac ardystio grantiau ar gyfer bron 800 o gyrff yn y sector cyhoeddus ledled Cymru | 10,922 | |
| ● ● ● | Asesiadau gwella lleol a gwaith archwilio perfformiad lleol, gan gynnwys bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | 3,553 | |
| ● ● | Cynnal astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys Astudiaethau Cenedlaethol Llywodraeth Leol, crynodebau Cymru gyfan o waith archwilio'r GIG lleol a bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.<br>Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill (Gweler paragraffau 38 i 46) | | 3,002 |
| ● ● ● ● | Cymorth i hyfforddeion archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, Datblygu Sgiliau Cyllid a phrentisiaethau yn Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Hyfforddiant ar gyfer ein rhaglen i hyfforddeion graddedig ynghyd â secondiadau am ddim i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a datblygu cynllun prentisiaeth (Gweler paragraffau 47 i 51) | | 567 |
| ● ● ● | Cymorth technegol, gan gynnwys cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd. | | 547 |
| ● | Y Gyfnewidfa Arfer Da. (Gweler paragraffau 52 i 54) | | 540 |
| ● ● ● ● | Buddsoddi mewn dysgu a datblygiad staff (gan gynnwys amser a chyllidebau hyfforddiant staff | | 500 |
| ● ● | Trawsnewid gan gynnwys Dadansoddi Data, Cyfathrebu a Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol (Gweler paragraffau 55 i 59) | | 360 |

| | | Cyllid | |
|---|---|---|---|
| Amcan a Gefnogir | | Incwm o Ffioedd | Cronfa Gyfunol Cymru |
| | | £’000 | £’000 |
| | Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | | 300 |
| | Cydraddoli costau teithio Cymru gyfan | | 300 |
| | Gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad ym maes Llywodraeth Leol | | 280 |
| | Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. | | 190 |
| | Gwaith paratoi ar gyfer Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol yn Gynnar | | 120 |
| | Gwybodaeth sectoraidd | | 130 |
| | Cyllid cylchol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol | | 50 |
| | Cyllid dibrisiant ar gyfer asedau cyfalaf | | 50 |
| | | **14,475** | **6,936** |

37 Nodir isod ragor o wybodaeth am rai o'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer arian Cronfa Gyfunol Cymru yn 2019-20.

## Adroddiadau cenedlaethol, gan gynnwys gwaith adweithiol – £3.002 miliwn

38 Rydym yn ceisio llunio o leiaf 14 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn yn seiliedig ar waith archwilio o rannau amrywiol o raglen yr Archwilydd Cyffredinol. O'r adroddiadau hyn, fel arfer, byddem yn disgwyl y byddai o leiaf 10 ohonynt, drwy eu natur, yn ddeunydd a fyddai'n cefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a/neu bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

39 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth benderfynu ar y gwaith i'w wneud fel rhan o'i raglen o archwiliadau gwerth am arian. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rheolaidd ar yr holl waith archwilio sy'n mynd rhagddo a allai gefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae'r gwaith o gynllunio'r rhaglen waith ar gyfer 2019-20 ac ar ôl hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

40 Mae rhai adroddiadau cenedlaethol a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnwys adolygiad o Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau ac adroddiad ar Reoli Effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE.

41 Byddwn yn parhau i neilltuo adnoddau i ddarparu'r capasiti angenrheidiol a datblygu ein gallu i wneud gwaith adweithiol mewn ymateb i faterion a gaiff eu dwyn i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill. Mae'r adnoddau a neilltuir at y diben hwn o amcangyfrif 2019-20 yn ymwneud yn bennaf â gwaith y tîm astudiaethau ymchwiliol a sefydlwyd gennym yn 2015. Mae enghreifftiau diweddar o adroddiadau cenedlaethol a arweiniwyd gan y tîm astudiaethau ymchwiliol yn cynnwys adolygiad o gydberthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, a ddefnyddiwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad Cenedlaethol i lywio ei ymchwiliad i weithgarwch cynhyrchu ffilm a theledu yng Nghymru.

42 Rydym wedi cynyddu'r arian a ddyrennir i'r maes hwn o £85,000 ar gyfer 2019-20 er mwyn darparu ar gyfer llunio adroddiad ar barodrwydd ar gyfer gadael yr UE.

43 Hyd yma, mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar Brexit wedi ymdrin â goblygiadau ymarferol mwyaf uniongyrchol Brexit i Gymru, sef terfynu rhaglenni a ariennir gan Ewrop mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol (tua £2.1 biliwn) a chymorth amaethyddol (tua £1.2 biliwn). Lluniwyd dwy astudiaeth gwerth am arian, sef:

- **Rheoli effaith Brexit ar gronfeydd Strwythurol yr UE** a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2018; ac
- ein hadroddiad ar Raglen Datblygu Gwledig 2014-20 sydd wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd ac a gyhoeddir yn ddiweddarach yn yr hydref.

44 Bwriadwn gyhoeddi adroddiad pellach yn ystod haf 2019 a fyddai'n edrych ar barodrwydd ar gyfer gadael yr UE ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun. Mae'n ddigon posibl mai'r gynulleidfa darged fyddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel arfer, ond gallai'r adroddiad gael ei ystyried hefyd/yn lle hynny gan Bwyllgor Materion Allanol y Cynulliad, sy'n arwain y gwaith o graffu ar Brexit o fewn y Cynulliad ei hun.

45 Rydym wedi amcangyfrif y byddai'r gwaith a fyddai'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn cyfateb i ddwy astudiaeth genedlaethol fawr ac er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon derbyn rhywfaint o'r gwaith ychwanegol hwn drwy ei gyflawni yn lle astudiaethau arfaethedig eraill, bydd angen rhai adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall ymdrin â risgiau a phynciau eraill y dylid eu cynnwys yn ei raglen o waith pellach.

46 Os na fydd unrhyw gytundeb trosiannol â'r UE, efallai y bydd angen cyflwyno Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2019-20 i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn i ni allu ymateb yn gyflymach i'r heriau a wynebir.

## Rhaglen Hyfforddiant Ariannol – £0.57 miliwn

47 Ers 2014, rydym wedi ymestyn ein cynllun hyfforddiant cyfrifyddu i raddedigion er mwyn ailfodelu ein gweithlu a sicrhau mwy o hyblygrwydd a sylfaen sgiliau gryfach a mwy amlbwrpas. Erbyn mis Medi 2018, roeddem wedi recriwtio cyfanswm o 45 o hyfforddeion ledled Cymru – sef ein lefel darged – sydd ar wahanol gamau yn eu datblygiad proffesiynol.

48 Mae ein cynllun hyfforddiant i raddedigion hefyd yn gweithredu fel rhan o raglen Cymru gyfan y bwriedir iddi wella profiad dysgu ein hyfforddeion drwy gynnig cyfleoedd iddynt gael eu secondio i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, tra'n darparu'r adnoddau i'r cyrff hynny allu gwneud gwaith datblygu.

49 Ein nod cyffredinol, ar y cyd â'r Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid, yw cynnig swyddi deniadol i raddedigion yng Nghymru a fydd, dros amser, yn dod yn rhan o gronfa o dalent ym maes cyllid a fydd ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

50 Yn 2018-19 rydym wedi defnyddio arian o'r Gronfa Gyfunol i ymestyn ein rhaglen i gynnwys rhaglen brentisiaeth, gyda phedwar prentis Archwilio Ariannol yn dechrau ym mis Medi 2018.

51 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yma gyda'r arian hwn.

| Rhaglen Hyfforddiant Ariannol – Cyflawniadau hyd yma |
| --- |
| **Recriwtio**<br>Gwnaethom recriwtio 12 o hyfforddeion graddedig newydd yn 2018. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm nifer hyfforddeion graddedig Swyddfa Archwilio Cymru i 45 ym mis Medi 2018. Rydym hefyd wedi croesawu'r pedwar prentis cyntaf i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Secondiadau**<br>Rydym yn parhau â'n rhaglen secondio hyfforddeion. Mae disgwyl i wyth o hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru gael eu secondio i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn ystod 2018-19 (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Tŷ'r Cwmnïau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Yn ogystal, rydym yn parhau i ymestyn y fenter i alluogi aelodau cymwysedig o staff i fanteisio ar secondiadau gwerthfawr. Rhoddir mesurau diogelwch priodol ar waith bob amser er mwyn sicrhau annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. |

| Rhaglen Hyfforddiant Ariannol – Cyflawniadau hyd yma |
| --- |
| **Meithrin sgiliau**<br>Cyflwynwyd rhaglen meithrin sgiliau lefel uwch i hyfforddeion a fydd yn arwain at raglen arweinyddiaeth iau achredededig. Bydd hyn yn gyfystyr â hyfforddiant rheoli llinell cyntaf achredededig ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau proffesiynol. Mae'r tri hyfforddai cyntaf eisoes wedi cwblhau eu hyfforddiant. Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi dangos diddordeb yn y rhaglen arweinyddiaeth iau hon a rhagwelir y bydd staff o sefydliadau eraill hefyd yn ymuno â'r rhaglen yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Rheoli**<br>Mae pob rheolwr llinell ar gyfer ein hyfforddeion wedi cael hyfforddiant uwch ar dechnegau hyfforddi er mwyn gwella eu sgiliau rheoli pobl. Bydd hyn yn eu galluogi i roi mwy o gymorth i hyfforddeion wrth iddynt ddilyn y rhaglen datblygu arweinyddiaeth |
| **Cynhadledd i hyfforddeion**<br>Mae trydedd gynhadledd i hyfforddeion wedi'i threfnu ar 16 Hydref 2018 ac rydym yn disgwyl tua 190 o fyfyrwyr cyllid o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Dangoswyd cryn ddiddordeb gan fyfyrwyr ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus (sy'n cefnogi'r digwyddiad ac yn siarad ynddo). Mae'r digwyddiad yn parhau i gael lefelau uchel o sgorau boddhad hyfforddeion. |
| **Rhwydweithiau hyfforddeion**<br>Mae'r Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid wedi sefydlu tri rhwydwaith i hyfforddeion ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r rhwydweithiau hyn yn galluogi hyfforddeion, sy'n gweithio i amrywiaeth o gyflogwyr ac sy'n astudio cymwysterau gwahanol, i ddod ynghyd a rhwydweithio, rhannu profiadau a chlywed gan amrywiaeth o siaradwyr er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr hyfforddeion ymhellach. |

## Cyfnewid Arfer Da – £0.54 miliwn

52 Sefydlwyd ein Cyfnewidfa Arfer Da yn 2006 i gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol ac arferion arloesol er mwyn helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau gwell drwy ddefnyddio seminarau dysgu ar y cyd, canllawiau ar-lein, astudiaethau achos a'r cyfryngau cymdeithasol.

53 Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn 2018-19 yn cynnwys seminarau ar Uchelgais Ddigidol a Gweithio mewn Partneriaeth; gweminarau ar gaffael cynaliadwy, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, symud o allbynnau i ganlyniadau a chyfres o bodlediadau ar newid ymddygiad. Mae rhestr lawn o ddigwyddiadau ar gael ar ein gwefan, gyda digwyddiadau yn cael eu cynnal yn y gogledd a'r de.

54 Gwyddom fod parch mawr tuag at ein rhaglen GPX, gydag 88% o Brif Weithredwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn dweud bod ein gwaith i hyrwyddo arfer da wedi bod o fudd i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn denu proffil cenedlaethol a rhyngwladol, gyda gwaith ymchwil yn dweud wrthym ei bod ar flaen y gad ym maes archwilio cyhoeddus.

## Prosiectau trawsnewid – £0.36 miliwn


55 Rydym yn defnyddio arian Cronfa Gyfunol Cymru i gefnogi tri phrosiect allweddol y bwriedir iddynt drawsnewid y ffordd rydym yn cyflawni gwaith archwilio erbyn 2025. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf o bob un o'r prosiectau hyn isod.

### Dadansoddi Data – £0.26 miliwn

56 Yn dilyn llwyddiant ein prosiect Archwilio Arloesol yn 2017-18, gwnaethom ofyn am gyllid penodol o 2018-19 i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu ein harbenigedd o ran defnyddio dadansoddiadau data. Isod rydym yn nodi'r hyn a gyflawnwyd gennym hyd yma a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Arddangosyn 12: prosiect dadansoddi data – cyflawniadau hyd yma

| Prosiect Dadansoddi Data – Cyflawniadau hyd yma |
|---|
| **Lansio strategaeth**<br>Strategaeth un dudalen sy'n ddeniadol i'r llygad a gwblhawyd ar ôl ymgynghori â staff. Mae'n ateb ei diben fel gweledigaeth gyffredinol i lywio'r rhaglen. Dangosir darn ohoni isod. |




| Prosiect Dadansoddi Data – Cyflawniadau hyd yma |
|---|
| **Atgyfnerthu ein trefniadau llywodraethu**<br>Bellach, mae gennym gyfres o ddogfennau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Mae Cyfarwyddwr ein rhaglenni yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. Rydym yn rhoi sicrwydd i'n Pwyllgor Rheoli a'n Bwrdd drwy gyflwyno adroddiadau diweddaru iddynt yn rheolaidd. Rydym wedi mabwysiadu math o broses rheoli prosiectau hyblyg y mae ei hegwyddorion yn cynnwys 'Datblygiad iteraidd', sy'n cyd-fynd yn agos â'n gwaith ymchwil a datblygu. |

| Prosiect Dadansoddi Data – Cyflawniadau hyd yma |
| --- |
| **Recriwtio**<br>Mae gennym ddau reolwr rhaglenni (un o'r gwasanaeth archwilio ariannol ac un o'r gwasanaeth archwilio perfformiad) a chynghorydd arbenigol, a gynorthwyir gan dîm cyflawni sy'n cynnwys tri aelod llawn amser (y mae dau ohonynt yn swyddi dros dro - gan gynnwys un secondiad o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Ymunodd dau brentis gwyddorau data â'r tîm ym mis Medi 2018. Rydym yn gwella ein gallu dadansoddi data drwy gynnwys ac uwchsgilio staff o bob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru lle y bo'n bosibl. |
| **Cydweithio â chyrff eraill**<br>Rydym wedi cytuno â chyrff eraill ar Fforwm Archwilio Cyhoeddus y DU i gydweithio ar 14 o brosiectau dadansoddi data.<br>O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) sy'n arwain ar y cais llwyddiannus am arian Govtech ar ran cyrff y Fforwm Archwilio Cyhoeddus i ystyried atebion dadansoddi data ar y cyd â chwmnïau preifat. |

## Prosiect Dadansoddi Data – Cyflawniadau hyd yma

**Ymchwil a datblygu**

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cynnydd ar fwy na 15 o gynlluniau peilot o blith ein prosiectau arfaethedig. Disgrifir rhai enghreifftiau isod.

### Dangosfwrdd archwilio ariannol

Gan ddefnyddio technegau data rydym wedi ail-greu cyfrifon corff a archwilir o gyfriflyfr cyffredinol a lawrlwythwyd. Mae'r adnodd rhyngweithiol yn sicrhau bod y data ar gael i archwilwyr eu defnyddio i asesu risg a dewis samplau.

### Gwylio'r Cynulliad

Mae ein hap Gwylio'r Cynulliad yn defnyddio meddalwedd arbenigol i adalw gwybodaeth o gofnodion cyfarfodydd y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r ap yn ein helpu i fonitro effaith Swyddfa Archwilio Cymru yn y Cynulliad drwy ddadansoddi faint o weithiau y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn cyfeirio at ein gwaith; mae'n ddangosydd perfformiad allweddol. Mae'r ap yn disodli ymarfer llaw a oedd yn cymryd llawer o amser ac yn cynhyrchu dadansoddiadau data o ansawdd llawer uwch a darperir y canlyniadau mewn fformat rhyngweithiol.

### Dadansoddi data'r Gofrestrfa Tir

Rydym wedi datblygu llif gwaith sy'n dadansoddi 3.5 miliwn o gofnodion o'r Gofrestrfa Tir yn gyflym (mewn 20 eiliad yn unig.) Y nod yw gwella effeithlonrwydd ac ansawdd ein prosesau dadansoddi tir ac adeiladau cyrff cyhoeddus, fel rhan o'n harchwiliadau ariannol. Mae'r llif gwaith yn tynnu cofnodion Cymreig ac yn mewnforio'r canlyniadau i adnodd adrodd, lle mae adnodd chwiliadwy a hidladwy sy'n berthnasol i'r corff sy'n cael ei archwilio ganddynt ar gael i'w ddefnyddio gan archwilwyr.

### Adnodd data lles pobl ifanc

Mae adnodd meddalwedd rhyngweithiol yn coladu data am wasanaethau ieuenctid a lles pobl ifanc ac mae'n cael ei ddefnyddio gan ein staff sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth genedlaethol o Les Pobl Ifanc. Mae'r adnodd yn diweddaru ei hun yn awtomatig er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y data diweddaraf o ffynonellau allanol ac fe'i cyflwynir mewn ffordd sy'n ddeniadol i'r llygad sy'n helpu i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi data a nodi tueddiadau. Mae'r elfennau rhyngweithiol yn galluogi defnyddwyr i hidlo yn ôl maes ac edrych ar dueddiadau tymor hwy.

### Ap mapio daearyddol

Rydym wedi creu ap sy'n defnyddio meddalwedd arbenigol sy'n galluogi staff i osod data ar fap o Gymru. Mae'r ap yn galluogi defnyddwyr i ddangos sut mae dangosyddion perfformiad (neu ddata perthnasol eraill) yn amrywio o ardal i ardal yng Nghymru. Defnyddir y mapiau fel graffeg yn ein hadroddiadau ac, yn y dyfodol, rydym yn gobeithio llunio mapiau rhyngweithiol fel cynhyrchion cyhoeddus o'n gwaith.

**Trawsnewid prosesau cyfathrebu – £0.05 miliwn**

57 Yn 2017-18, defnyddiwyd rhywfaint o'n cyllid trawsnewid i gefnogi prosiect a oedd yn edrych ar y ffordd rydym yn sicrhau'r gynulleidfa fwyaf bosibl ar gyfer ein gwaith. Ymdriniodd argymhellion tîm y prosiect â'r meysydd canlynol:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall y cynulleidfaoedd ar gyfer gwaith archwilio a'u gofynion yn well
- Datblygu arddull a chynnwys ein hadroddiadau er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar gyrhaeddiad, hygyrchedd ac effaith ein gwaith
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio technolegau a thechnegau newydd i gyfathrebu â'n cynulleidfaoedd
- Integreiddio gwaith y Tîm Cyfathrebu yn well â thimau cyflawni prosiectau er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl

58 Rydym yn gofyn am gynnydd o £50,000 yn ein cyllid trawsnewid ar gyfer 2019-20 er mwyn ein helpu i weithredu'r argymhellion hyn.

**Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol – £0.05 miliwn**

59 Bydd tîm prosiect i edrych ar y ffordd y dylem weithio yn y dyfodol yn dechrau ar ei waith ym mis Medi 2018. Y meysydd ffocws allweddol fydd:

- Sut y gallwn wneud y defnydd gorau o swyddfeydd ac adnoddau a thechnoleg
- Trefniadau gweithio hyblyg i ddelio â'r galw pan fydd ar ei fwyaf

# Rhagolwg

60 Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn awgrymu, am fod disgwyl i'r pwysau ar gyflogau a phrisiau gynyddu, y bydd yn fwyfwy anodd i ni gynnal ein hymrwymiad i gyfyngu unrhyw alw ychwanegol ar Gronfa Gyfunol Cymru i alwadau newydd a chyfyngu hyd yr eithaf ar unrhyw gynnydd yn ein ffioedd.

61 Mae ein cyllideb ar gyfer 2019-20 yn nodi ein bod yn disgwyl gwneud arbedion cost sylweddol yn ystod y flwyddyn ar ben y lleihad o 14% yn ein costau a sicrhawyd ers 2013-14. Er ein bod yn parhau i geisio dod o hyd i feysydd eraill lle y gellir gwneud arbedion, ni all hyn fod ar draul ansawdd gwaith archwilio cyhoeddus yng Nghymru.

62 Os bydd y pwysau ar gyflogau a phrisiau yn fwy na'r disgwyl, efallai y bydd angen i ni ailystyried ein tybiaethau costio ac ariannu.

63 Mae sefyllfa newidiol ein gwaith archwilio cyhoeddus yn creu darlun cymhleth i Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys y canlynol:

- effaith Brexit ar gyllid a deddfwriaeth;
- cyfyngiadau ariannol parhaus yn y sector cyhoeddus a'r ymateb iddynt, ynghyd â disgwyliadau cyhoeddus newidiol mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus;
- y sefyllfa wleidyddol rhwng San Steffan a Chymru ac effaith rhagor o ddatganoli a phwerau trethu i Gymru;
- rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac unrhyw effeithiau ar waith yr Archwilydd Cyffredinol;
- gwasanaethau cyhoeddus di-dor ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaethau a chydweithio, fel Bargenion Dinesig;
- digideiddio prosesau darparu gwasanaethau, gwella gallu'r cyhoedd i weld data archwilio a defnydd ehangach o gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill;
- y bwriad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach ar ôl 2019-20, gydag effeithiau canlyniadol ar adnoddau ar draws llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- chyfyngiadau cyflog parhaus yn y sector cyhoeddus sy'n arwain at golli talent broffesiynol.

64 Rydym wrthi'n cynllunio ar gyfer hyn oll, o ran ein cynlluniau ariannol a'n cynlluniau ar gyfer y gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau archwilio o safon, drwy:

- barhau i bennu targed blynyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, £574,000 yn 2019-20, drwy ein rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – er mwyn helpu i sicrhau y caiff pob punt a wariwn yr effaith fwyaf posibl;
- adolygu ein strategaeth cynllunio'r gweithlu ac ystyried y cymysgedd o sgiliau a model y gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol - fel y gallwn ail-lunio ein gweithlu dros amser, gan baratoi ar gyfer newidiadau i'n rhaglen waith;
- defnyddio ein gwybodaeth strategol er mwyn helpu i ddatblygu polisi a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol, er enghraifft i Brexit a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru; a
- buddsoddi mewn dadansoddi data a digideiddio a darparu adnoddau er mwyn helpu i sicrhau newid sefydliadol.

65 Bydd ein hadroddiadau interim a blynyddol, ynghyd â'n Hamcangyfrifon blynyddol, yn dangos sut rydym yn wynebu'r heriau ac yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

66 Bydd Amcangyfrifon yn y dyfodol yn ystyried sut y gallwn feithrin gallu i gynhyrchu incwm er mwyn helpu i bontio'r diffyg disgwyliedig yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

# Cwmpas y gyllideb 2019-20

## Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2020

67 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

68 Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2020, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; ac
- y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

69 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn Arddangosyn 13.

Arddangosyn 13: crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2019-20

| | **£'000** |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 6,936 |
| • Cyfalaf | 210 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio ac ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau, fel staff ar secondiad, benthyciadau staff, taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith – i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 14,475 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 6,946 |

70 Mae Arddangosyn 14 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2020.

Arddangosyn 14: cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | **£'000** |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 7,146 |
| Addasiad anariannol – dibrisiant a chroniadau | (200) |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 6,946 |

# Atodiad 1 – Cynllun Ffioedd Drafft 2019-20


Cyflwyniad 38

Rhestr deddfiadau 39

Cyfraddau a graddfeydd ffioedd 39

Codi ffioedd 42


## Atodiadau


Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 43

Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt 45

Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2019 47

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Ffioedd, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi'r sylfaen i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd.

2 Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n astud ar adborth rhanddeiliaid ar ein hagenda cost-effeithlonrwydd a'r cyfraddau ffioedd a bennwn. Wrth geisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20, gwnaethom gynnig y canlynol yn yr Amcangyfrif:

- cynnydd mewn cyfraddau ffioedd a gaiff ei wrthbwyso gan leihad yn nifer y diwrnodau archwilio a'r cymysgedd sgiliau er mwyn i'n graddfeydd ffioedd aros yn ddigyfnewid o 2018-19.
- Yn unol â chytundeb blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol, parhau i ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol o'r arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff sy'n cymryd rhan. Dangosodd yr adborth fod cyrff a archwilir yn croesawu'r drefn hon.
- parhau i roi cyfleoedd i'n hyfforddeion cyfrifyddu fynd ar secondiad yn y sector cyhoeddus, heb effeithio ar y ffioedd a godir am waith archwilio.
- cynnal y gallu i feddwl mewn ffordd drawsnewidiol am ein dulliau archwilio. Atgyfnerthodd yr adborth yr angen i ni wneud mwy o waith datblygu er mwyn helpu i gydbwyso cost gyffredinol gwaith archwilio i gyrff cyhoeddus.

3 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ac, yn fras, mae'n nodi'r canlynol:

- Y deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd archwilio odanynt.
- y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
- – graddfeydd ffioedd sy'n nodi'r amrediad ffioedd a godir am feysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
- – gyfraddau ffioedd am waith na chaiff ei gynnwys mewn graddfeydd ffioedd.

4 Yn gyffredinol, caiff 68% o'n gwariant ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith asesu gwelliant. Darperir y 32% arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid yn ein hamcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## Rhestr deddfiadau

5 Mae Atodiad 2 yn rhestru'r deddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt.

## Cyfraddau a graddfeydd ffioedd

6 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir ein cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn.

7 Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gyrff a archwilir a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein gwariant amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Os bydd y gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gododd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, yn unol â deddfwriaeth.

8 Yn ystod 2017-18, gwnaethom ymgynghori'n eang ar y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r drefn ffioedd yng Nghymru, sy'n fwy cymhleth nag mewn rhannau eraill o'r DU ac yn creu aneffeithlonrwydd a chostau ychwanegol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i'r Pwyllgor Cyllid ac rydym yn aros am ei ymateb.

9 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Awst 2018, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd ffioedd ar gyfer 2019-20. Ymgynghorwyd â chyfanswm o 92 o gyrff gwahanol. Dim ond saith o'r cyrff hyn a ymatebodd. Dangosodd yr ymatebion hynny y canlynol:

- mae cyrff a archwilir yn dal i werthfawrogi'r ffaith y gallant gymryd rhan am ddim yn y Fenter Twyll Genedlaethol; ac
- er eu bod yn croesawu ein hymrwymiad i rewi ein graddfeydd ffioedd a'n ffioedd cyffredinol ar gyfer 2019-20, gofynnodd rhai cyrff a archwilir a allem fynd gam ymhellach a lleihau ffioedd yn unol â'r gostyngiadau mewn cyllid y mae'r cyrff hynny yn eu hwynebu.

10 Yn 2018-19 lleihawyd ein graddfeydd ffioedd drwy sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn prosesau archwilio ac rydym wedi cadw'r graddfeydd hyn ar lefelau 2019-20 er gwaethaf y cynnydd angenrheidiol mewn cyfraddau fesul awr.

11 Croesawodd y Bwrdd yr adborth ac mae'n ymateb iddo drwy'r Cynllun Ffioedd hwn a'n Hamcangyfrif.

12 Mae Arddangosyn 15 yn nodi'r cyfraddau ffioedd fesul awr am staff archwilio

Arddangosyn 15: cyfraddau ffioedd am staff archwilio

| Gradd | Cyfradd ffioedd arfaethedig (£ yr awr) 2019-20 | Cyfradd ffioedd (£ yr awr) 2018-19 |
|---|---:|---:|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 161 | 159 |
| Rheolwr yr archwiliad | 115 | 112 |
| Prif Archwilydd | 94 | 93 |
| Uwch Archwiliwr | 73 | 66/76 |
| Archwiliwr | 57 | 57 |
| Hyfforddai graddedig | 46 | 44 |

13 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y canlynol:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

14 Mae'r graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon ariannol 2018-19 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2019-20 ar gael yn Atodiad 3 ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Ceir graddfa ffioedd wahanol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

15 Mae'r graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio costau archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn rhoi fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw o fewn y corff penodol a archwilir.

16 Yn achos cyrff a archwilir nad yw'r gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn berthnasol iddynt, caiff eu ffioedd archwilio amcangyfrifedig eu cyfrifo yn yr un ffordd - hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn at y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig yn y tîm a'r oriau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad.

17 Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a thrwy adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

18 Mae'r cyfraddau ffioedd yn gymwys i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle bo hynny'n gymwys, yn rheoleiddio'r swm a godir (neu yn achos gwaith a wneir dan gytundebau cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yn y telerau). Os ymddengys yn ddiweddarach i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith sydd ynghlwm wrth archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol, caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n wahanol i'r ffi a nodwyd yn wreiddiol.

19 O ran unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, caiff ffioedd eu codi yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod y caiff y cyfryw symiau eu capio yn unol â chost lawn darparu'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy’n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith dan sylw.

20 Os bydd angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir tâl ar y cyrff a archwilir yn ychwanegol at gost staff Swyddfa Archwilio Cymru.

## Codi ffioedd

21 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio cymysgedd sgiliau'r corff hwnnw ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi ffioedd â chyrff a archwilir a gallai'r rhain gynnwys ffioedd un-tro, achlysurol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

22 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'u targed perfformiad ar gyfer talu credydwyr, sef 10 diwrnod fel arfer yn y sector cyhoeddus. Gallwn godi ffi am unrhyw gostau gweinyddol yr awn iddynt wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

23 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol yr aed iddynt wrth gyflawni'r aseiniad o gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd yn fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi costau ychwanegol pan fo'r ffi yn rhy fach. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol gan geisio lleihau costau gweinyddol i'r eithaf, drwy eu gwrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio, er enghraifft.

## Atodiad 1 – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- a rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;
- b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw; a
- d pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

- a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a
- b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

- a rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
- b caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, a
- c rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

- a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu
- b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

Arddangosyn 16: rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am gyfrifon llywodraeth leol). | • Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb. | • Adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 o ran Datganiad Treth Awdurdod Refeniw Cymru. | • Adran 23(3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | • Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Unrhyw rai o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | • Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | • Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Ymarferion paru data. | • Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • Cyngor a chymorth a roddir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan yr Archwilydd Cyffredinol. | • Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. | • Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • Gwasanaethau ardystio grantiau. | • Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. | • Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol. | • Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| • Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth o weinyddu budd-daliadau dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru am yr astudiaeth. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. | • Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i arolygu awdurdodau lleol. Ni wnaiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu cymorth o'r fath oni fydd y Prif Arolygydd, cyn iddo wneud hynny, wedi cytuno i dalu ffi i Swyddfa Archwilio Cymru. | • Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |
| • Rhaglenni astudio yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gynhelir drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd yn un o amodau unrhyw raglen o'r fath bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i Swyddfa Archwilio Cymru am y costau yr eir iddynt. | • Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

# Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir mewn cyrff llywodraeth leol

## Awdurdodau unedol


Arddangosyn 17: graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2018-19

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 117 | 138 | 158 | 138 |
| 200 | 141 | 166 | 191 | 166 |
| 300 | 157 | 185 | 212 | 185 |
| 400 | 169 | 199 | 229 | 199 |
| 500 | 180 | 211 | 243 | 211 |
| 600 | 189 | 222 | 255 | 222 |
| 700 | 197 | 231 | 266 | 231 |
| 800 | 204 | 240 | 276 | 240 |
| 900 | 210 | 247 | 284 | 247 |
| 1,000 | 216 | 254 | 292 | 254 |
| 1,100 | 222 | 261 | 300 | 261 |
| 1,200 | 227 | 267 | 307 | 267 |

Arddangosyn 18: graddfa ffioedd 2019-20 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

| Pob awdurdod unedol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 83 | 99 | 115 | 99 |

Arddangosyn 19: graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol[4]




4 mae 'agweddau ar wella ansawdd' yn cyfeirio at ansawdd y broses llunio cyfrifon h.y. ansawdd y datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith ategol.

# Awdurdodau tân ac achub


Arddangosyn 20: graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2018-19

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 34 | 40 | 46 | 40 |
| 40 | 41 | 49 | 56 | 49 |
| 60 | 46 | 54 | 62 | 54 |
| 80 | 50 | 58 | 67 | 58 |
| 100 | 53 | 62 | 71 | 62 |

Arddangosyn 21: graddfa ffioedd 2019-20 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

| Pob awdurdod tân ac achub | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 14 | 16 | 19 | 16 |

Arddangosyn 22: graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



## Awdurdodau parciau cenedlaethol


Arddangosyn 23: graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2018-19

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 21 | 25 | 29 | 25 |
| 4 | 26 | 30 | 35 | 30 |
| 6 | 29 | 34 | 39 | 34 |
| 8 | 31 | 36 | 42 | 36 |
| 10 | 33 | 38 | 44 | 38 |

Arddangosyn 24: graddfa ffioedd 2019-20 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad (gan gynnwys archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009)

| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 14 | 17 | 19 | 17 |

Arddangosyn 25: graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol




## Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Mae archwilwyr yn archwilio dau gorff statudol mewn ardal heddlu, sef Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

Arddangosyn 26: graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2018-19

| Gwariant gros cyfunol CHTh a PG £000,000 | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer CHTh a PG £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 50 | 56 | 66 | 76 | 66 |
| 100 | 67 | 79 | 91 | 79 |
| 150 | 74 | 87 | 100 | 87 |
| 200 | 79 | 94 | 108 | 94 |
| 250 | 84 | 99 | 114 | 99 |
| 300 | 88 | 104 | 120 | 104 |
| 350 | 91 | 108 | 124 | 108 |

Arddangosyn 27: graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid



## Cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o lai na £2.5 miliwn

Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r drefn archwilio 'sicrwydd cyfyngedig'. Ers 2016-17, rydym wedi codi ffioedd am y gwaith hwn ar sail amser yn hytrach nag ar y sail hanesyddol o godi ffi benodedig yn unol â bandiau gwariant/incwm.

Cyfraddau'r ffioedd fydd y cyfraddau a bennir yn Arddangosyn 28.

Mewn amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau yn briodol, megis ar ôl cyhoeddi adroddiad perthnasol er lles y cyhoedd, bydd profion ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn ymateb i bryderon yr archwilydd.

Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser a dreulir mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r amrediadau yn y tabl isod wedi eu darparu at ddibenion dangosol yn unig.

Arddangosyn 28: amcangyfrif o'r ffioedd amser am archwilio cyfrifon 2018-19 cynghorau tref a chymuned

| Incwm neu wariant blynyddol | Ffi waelodlin ddangosol | Ffi amrediad uchaf ddangosol |
|---|---|---|
| £0 – £5,000 | £140 | £280 |
| £5,001 – £100,000 | £160 | £320 |
| £100,001 – £500,000 | £200 | £380 |
| £500,001 – £2,500,000 | £240 | £460 |

## Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

Arddangosyn 29: graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2018-19

| Pob cronfa bensiwn | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 33 | 40 | 55 | 40 |

## Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

### Archwilio mathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, a gwaith ardystio grantiau

Heblaw am y mathau hynny o gyrff lle rhagnodwyd eu graddfeydd ffioedd fel y nodir uchod, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd, naill ai'n uniongyrchol ar sail y gost o gyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a bennir yn Arddangosyn 15. Byddwn yn dal i gynllunio archwiliadau ar sail sero wrth archwilio'r cyrff hyn.

Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau cyffredinol (sef y rhai a bennir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â her etholaethol ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith dan sylw.

Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn fesul awr, a bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith ac unrhyw faterion penodol ynglŷn â'r grant dan sylw.

Rydym yn cydweithio’n agos â Llywodraeth Cymru yn y gobaith y gallwn lunio model a fydd yn canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch a ariennir gan grantiau, gan ymbellhau oddi wrth y dull traddodiadol o archwilio anfonebau. Dylai hyn roi dealltwriaeth gliriach i Lywodraeth Cymru a chyrff a archwilir o'r gwahaniaeth y mae gweithgarwch a ariennir gan grantiau yn ei wneud, yn ogystal â lleihau cost gwaith ardystio grantiau. Rydym yn treialu'r dull hwn yn ystod 2016-17, a byddwn yn trafod y goblygiadau i ffioedd gyda’r awdurdodau peilot.

Arddangosyn 30: Dangosir isod amcangyfrifon o gyfrannau cymharol y graddau staff archwilio ariannol a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.

| Graddau staff | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 to 2 | 0 to 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 to 6 | 1 to 2 |
| Uwch archwilydd | 18 to 21 | 12 to 16 |
| Archwilydd/ hyfforddai graddedig | 77 to 71 | 87 to 81 |

Mae'r grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i drechu twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yng Nghymru bob dwy flynedd. Caiff y Fenter ei chynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter wedi bod yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi gychwyn yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth £30 miliwn yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter o dan ei bwerau paru data statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ers mis Ebrill 2016, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi talu am redeg y Fenter drwy ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru fel y'i cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, a thrwy hynny sicrhau na chodir ffi ar gyfranogwyr gwirfoddol. Ond fel sy’n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol isod.

Arddangosyn 31: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

| Math o gorff | Ffi<br>2019-20<br>£ |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. | Nil |
| Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter (App Check). | Nil |

Bydd cyfranogwyr gorfodol yn cael mynediad yn ddi-dâl hefyd i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk